# Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

## Cynaliadwyedd y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Crynodeb – Arolwg i Gynaliadwyedd y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## Cefndir

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r arolwg cynaliadwyedd y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol a gynhaliwyd gan y tîm Allgymorth.

Roedd yr holiadur ar agor i ymgynghoriad ac ymatebion rhwng 29 Gorffennaf a 19 Medi 2016.

## Methodoleg

Mae pryderon ynghylch recriwtio, cadw a chynaliadwyedd y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi cael llawer o gyhoeddusrwydd. I helpu'r Pwyllgor dod i ddeall y materion sy'n hwynebu'r gweithlu, cynhaliodd y tîm Allgymorth arolwg ar-lein.

Roedd yr arolwg yn targedu'r rhai sydd yn gweithio yn y meysydd Iechyd a gofal Cymdeithasol, yn y sector cyhoeddus, sector preifat â'r trydydd sector. Yn yr achos hwn, gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant (a sut y gallwn wella); eu rhesymau dros ddewis i weithio yng Nghymru (neu eu rhesymau dros adael), ac unrhyw syniadau teimlai ymatebwyr y dylai cael eu blaenoriaethu can eu proffesiynau er mwyn gallu darparu'r mathau o ofal y gallai pobl ei angen yn y dyfodol. Bydd yr ymatebion yn rhan o ddarn o waith cychwynnol, eang o gasglu tystiolaeth i helpu i lywio dull y Pwyllgor o ymdrin â materion y gweithlu yn ystod y Pumed Cynulliad.

## Codi Ymwybyddiaeth

Er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r arolwg a denu cyfranogwyr, cysylltodd y Tîm Allgymorth ag ystod eang o sefydliadau. Roedd y rhai y cysylltwyd â hwy wedi gallu codi ymwybyddiaeth mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys rhoi erthyglau ar wefannau; tynnu sylw ar gyfryngau cymdeithasol gan gynnwys Facebook a Twitter; ac anfon negeseuon e-bost yn uniongyrchol at gyfranogwyr. Defnyddiwyd cyfrifon corfforaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru I rannu'r holiadur, yn ogystal â chyfrif swyddogol y Pwyllgor.

Bu staff y Cynulliad hefyd yn hyrwyddo'r arolwg ymysg unigolion perthnasol yn ystod presenoldeb y Cynulliad yn yr Eisteddfod Genedlaethol, a gynhaliwyd yn Y Fenni blwyddyn yma.

# Dadansoddiad Arolwg


## Ystadegau Allweddol

**856** Cyfanswm nifer yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg

## Crynodeb Daearyddol o'r Ymatebion


**Nifer yr ymatebion i'r arolwg a gafwyd gan y cyhoedd wedi'i dadansoddi yn ôl awdurdod lleol**

Blaenau Gwent: 5
Pen-y-bont ar Ogwr: 47
Caerffili: 13
Caerdydd: 81
Sir Gaerfyrddin: 48
Ceredigion: 31
Conwy: 37
Sir Ddinbych: 28
Sir y Fflint: 16
Gwynedd: 12
Ynys Môn: 6
Merthyr Tudful: 5
Sir Fynwy: 15
Castell-nedd Port Talbot: 30
Casnewydd: 29
Sir Benfro: 26
Powys: 16
Rhondda Cynon Taf: 27
Abertawe: 70
Torfaen: 20
Bro Morgannwg: 16
Wrecsam: 35
Tu allan i Gymru: 16



# Crynodeb o'r ymatebion


**01.** Beth yw eich swydd neu broffesiwn? Os ydych dal mewn addysg neu hyfforddiant, nodwch ym mha bwnc.




*Nifer yr ymatebion*

*D.S. – Mae'r categorïau hyn yn seiliedig ar swyddi / proffesiynau a nodwyd gan yr ymatebwyr.*


**02.** Beth oedd eich rhesymau dros ddewis gweithio neu hyfforddi yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol?



**03.** Ble wnaethoch chi / ydych chi'n astudio?

*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 884*


- Cymru: **63% (557)**
- Yr Alban: **1.96% (16)**
- Gogledd Iwerddon: **0.61% (5)**
- Lloegr: **31% (277)**
- O fewn yr Undeb Ewropeaidd: **1.1% (9)**
- Y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd: **2.45(20)**



**04.** Ble ydych chi'n gweithio?


*Cyfanswm nifer yr ymatebion*: 842

- Cymru: **97% (812)**
- Yr Alban: **0.2% (2)**
- Gogledd Iwerddon: **0.2% (2)**
- Lloegr: **2.2% (20)**
- O fewn yr Undeb Ewropeaidd: **0.2% (2)**
- Tu allan i'r Undeb Ewropeaidd: **0.2% (2)**




## Ar gyfer y rhai a astudiodd neu a gafodd eu hyfforddi yng Nghymru, ac sy'n gweithio yng Nghymru:

**05.** Beth oedd eich prif reswm dros aros yng Nghymru i weithio?




## Ar gyfer y rhai a astudiodd neu a gafodd eu hyfforddi y tu allan i Gymru, ac sy'n gweithio yng Nghymru:

**06.** Beth oedd eich prif reswm dros ddod i Gymru i weithio?



## Ar gyfer gwladolion Cymru a astudiodd neu a gafodd eu hyfforddi y tu allan i Gymru, ac sy'n gweithio y tu allan i Gymru:


**07.** Beth oedd eich prif reswm dros barhau i weithio y tu allan i Gymru?



**08.** A ydych o'r farn bod cyfleoedd digonol i bobl ifanc gael gwybod am yr ystod o yrfaoedd sydd ar gael yn y GIG a gofal cymdeithasol? Dywedwch wrthym am eich profiad.

*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 689*

- Ydw: **27.8% (192)**
- Nac ydw: **59.9% (413)**
- Ansicr: **11.3% (78)**
- Amherthnasol: **0.87% (6)**



## Sylwadau

- Roedd **282** o ymatebwyr yn teimlo **nad oedd digon o wybodaeth** am yr **amrywiaeth o gyfleoedd** gyrfa o fewn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol;

- Roedd **29** o unigolion yn dadlau **nad oedd digon o fuddsoddi yng ngwirfoddoli a phrofiadau gwaith** yn y sector;

- Dywedodd **131** nad oedd digon o wybodaeth ar gael am yr amrywiaeth o yrfaoedd o fewn y gweithle a'r **ystod eang o ffyrdd y gallwch chi dderbyn a chael gafael ar y wybodaeth hon** (e.e. cyfryngau cymdeithasol);

- Roedd **93** o ymatebwyr yn teimlo **gall mwy ei wneud i hyrwyddo'r ystod eang o yrfaoedd o fewn y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol** yn gynharach mewn ysgolion;

- Dywedodd **naw** unigolyn bod y **rhan helaeth o gyfleoedd** yn **cael eu hysbysu'n fewnol** ar fewnrwyd y GIG yn unig;

- Dywedodd **deg** ymatebwr y gall mwy ei wneud i hyrwyddo'r cyfleodd hyfforddi o fewn y sector gyda **llai o ffocws ar gyflawniad academaidd**;

- Roedd **chwe** ymatebwr wedi dadlau er bod y **cyfleoedd hyfforddi mewn swydd wedi cynyddu**, mae rhai o broffesiynau o fewn y gweithlu **gyda phrinder staff ac felly methu ymgymryd â'r hyfforddiant**;


- Cyflwynodd **tri** unigolyn y syniad o **ailgyflwyno'r cynllun "blasu profiad gwaith"** a oedd yn caniatáu i bobl cael profiad gwaith mewn rhannau gwahanol o'r GIG a'r gweithlu gofal cymdeithasol;

- Roedd **pump** o'r ymatebwyr yn teimlo bod **diffyg cymorth cyllido**; ar gael er mwyn astudio rhai prifiaswn penodol o fewn y gwasanaeth Iechyd a gofal Cymdeithasol, sydd felly'n **atal pobl ifanc rhag gwneud ceisiadau**.

**09.** Yn ôl eich profiad chi, a yw'r addysg a'r hyfforddiant iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ar gyfer eich swydd neu proffesiwn yn effeithiol?

*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 645*

- Ydw: **56.58% (365)**
- Nac ydw: **38.1% (246)**
- Ansicr: **5.27% (34)**



## Dyfyniadau Allweddol

**Esboniodd llawr o'r ymatebwyr eu bod yn pryderu am ansawdd yr hyfforddiant a ddarperir i fyfyrwyr:**

"Dw i'n poeni yr ydym wedi **cynyddu'r nifer o fyfyrwyr nyrsio, ond mae angen lleoliadau da**, ac mae nyrsys o dan bwysau enfawr oherwydd prinder staff ac felly efallai y bydd profiad y myfyriwr yn wael ac ein cyfradd gadael yn cynyddu..." - **Rheolwr Tîm Nyrsio Ardal**

"Ceir **anhawster cydnabyddedig yn cynnal niferoedd digonol o leoliadau clinigol**. Mae clinigwyr yn codi pryderon ynglŷn â chael digon o amser i roi'r profiadau dysgu orau posib i fyfyrwyr ar leoliad". -**Ffisiotherapydd**

**Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant pellach a datblygiad proffesiynol a gynigir gan awdurdodau lleol:**

"**Dw i wedi cymhwyso ers 20 mlynedd, ac yn anffodus, nid wyf yn teimlo bod yr hyfforddiant a gynigir gan yr awdurdod lleol yn effeithiol** yn bodloni fy anghenion. Blwyddyn ar ôl blwyddyn, cynigir yr un hyfforddiant ac os ydych chi wedi arbenigo mewn maes penodol fel gwasanaethau maethu, mabwysiadu neu wasanaethau cymorth, ychydig iawn o hyfforddiant penodol cynigwyd". - **Gweithiwr Cymdeithasol**

**Trafododd llawer o ymatebwyr eraill yr angen i ystyried symud i ffwrdd oddi wrth hyfforddiant academaidd o amrywiaeth o safbwyntiau:**

"Mae hyfforddiant bellach wedi'u ffocysu'n academaidd, sydd yn bwysig, ond [mae yna] llai o bwyslais yn cael ei roi ar brofiad ymarferol a **llai o gyfleoedd ar gael i rheini sy'n cael trafferth yn y byd academaidd** ond byddai'n gwneud gofalwyr neu weithwyr proffesiynol rhagorol ym maes gofal iechyd". - **Bydwraig**

"Rwy'n credu ei fod yn effeithlon ond teimlaf hefyd ein bod yn colli allan ar nyrsys / gofalwyr y dyfodol oherwydd bod y **sylfaen o wybodaeth sydd eu hangen i ddringo'r ysgol yn rhy uchel i ran fwyaf o bobl sydd efallai'n rhagori yn agweddau ymarferol y swydd** e.e. cafodd yr hen system Cofrestru Nyrsys Gwladol ei ddileu, ac nad oes gyfleodd ar gyfer y rhai sydd yn methu'r graddau uchel". - **Rheolwr Cartref Gofal Preswyl**

**O ganlyniad, roedd llawer yn teimlo bod hyn yn gwrth-annog pobl ifanc ystyried gyrfa yng ngweithlu Iechyd a gofal Cymdeithasol:**

"**Mae angen graddau lefela uchel iawn** yn golygu bod llawer o bobl ifanc dw i'n adnabod eisiau nyrsio ond ddim wedi cyflawni 3 gradd B ac felly'n gwneud cyrsiau mynediad am flwyddyn ychwanegol cyn ail geisio - rhai yn llwyddiannus a rhai eraill yn methu. Mae o i weld yn anodd cael dod mewn i yrfa nyrsio ar hyn o bryd". - **Uwch Nyrs**

**Roedd eraill wedi trafod y mater o swyddi hyfforddi a chyfleodd i astudio, gan gynnwys y swyddi sydd ar gael:**

> "Dim ond **un lle sydd ar gael yng Nghymru i mi astudio fy mhroffesiwn,** ac er i mi dderbyn y radd ofynnol, methais gynnig cyfweliad. Dw i'n meddwl bod hyn yn drueni, gan wthio pobl allan o Gymru, a chynyddu'r tebygolrwydd efallai na ddychwelwyd yma i weithio". - **Ffisiotherapydd**
>
> "Rwy'n credu y **mae gwahaniaeth rhwng yr hyfforddiant a gynigir yma a'r swyddi sydd ar gael**. Dw i ar hyn o bryd yn astudio MSc, gydag ychydig o gyfle y bydd y swydd gyda fy nghymhwyster yn dod ar gael (Ymarferydd Nyrsio Pediatrig). Ond, mewn gwirionedd, mae yna ddisgwyliad y bydd rhaid i mi adael y Bwrdd Iechyd dw i'n gweithio i ar hyn o bryd, serch y ffaith mai dim ond un fydd ar gael yn y Bwrdd Iechyd (ABMU) gyfan. Mae'n debyg fyddai'n symud tu allan i Gymru". -**Nyrs**

**Cafwyd rhai sylwadau ynglŷn ag addysg i oedolion a mynediad i'r proffesiynau:**

> "Yr wyf wedi studio fel myfyriwr aeddfed ac yr oedd yn anhrefnus iawn. Mae'r **toriadau i addysg oedolion** wedi cael effaith yn sicr". - **Myfyriwr Gweithiwr Cymdeithasol**


**I lawer, yr agweddau galwedigaethol o'r cyrsiau a hyfforddiant a roddodd iddynt y ddealltwriaeth roedd angen arnynt i adlewyrchu arferion gwaith cyfredol. Yr oedd alwad pellach i ddefnyddio cyfleoedd gwirfoddoli:**

> "**Mae llawer o Weithwyr Cymdeithasol rhagorol wedi elwa o'r llwybr gwirfoddoli,** gwaith cefnogi heb gymhwyster ayyb. ac yna'n mynd ymlaen i hyfforddiant Gwaith Cymdeithasol. Dylai mwy o gyfleodd bod ar gael trwy gyflogwyr i gefnogi'r llwybr datblygu yn y gwaith lle maent yn gwybod beth yw heriau'r swydd yn uniongyrchol trwy weithio ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol cyn dechrau ar hyfforddiant proffesiynol eu hunain"- **Cynghorydd Datblygu Gofal Rhanbarthol**

**Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn credu bod addysg a hyfforddiant iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn effeithiol ond i nifer sylweddol ohonynt, mae angen paratoi dyfodiaid newydd a chadw staff yn well:**

> "Yn gyffredinol, **mwynheais fy ngradd. Fodd bynnag, dw i'n teimlo gallai fod adran sy'n canolbwyntio ar hunanymwybyddiaeth / rheoli pwysau gwaith / rheoli gwaith achosion** ayyb. Yn anffodus, dw i'n ymwybodol o nifer fawr o weithwyr Cymdeithasol sydd newydd gymhwyso, drwy weithio yng Nghymru a Lloegr, sy'n cael trafferth gyda phwysau a'r disgwyliadau o'r rôl yn y blynyddoedd cyntaf. Mae hyn yn effeithio are u hyder fel gweithwyr a'r adran maen nhw'n gweithio i. Yn ogystal â'r gwaith a wnaed gyda'r teuluoedd". - **Gweithiwr Cymdeithasol**


**10.** Sut y gellir gwella'r addysg a'r hyfforddiant ar gyfer eich swydd / proffesiwn?



**11.** A yw eich swydd / proffesiwn yn barod i fodloni anghenion iechyd a gofal pobl Cymru yn y dyfodol, gan gynnwys, er enghraifft, darparu gwahanol fathau o ofal neu ofal mewn gwahanol leoliadau? Dywedwch wrthym am eich profiad.

*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 764*

- Ydy: **47% (363)**
- Nac ydy: **37% (279)**
- Ddim yn gwybod: **16% (122)**



## Dyfyniadau Allweddol

**Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyd yn teimlo bod eu swydd / proffesiwn yn barod i fodloni anghenion Iechyd a gofal pobl Cymru. Fodd bynnag, roedd nifer o bryderon mewn perthynas â'r gallu i reoli'r llwyth gwaith sylfaenol:**

> "Mae disgwyl i ni fod yn **aml-sgil ym mhob agwedd o waith** gofal a chymorth ac yn gallu ymateb i alwadau argyfwng bron ar unwaith pan fyddwn prin yn gallu delio gyda'r pecynnau sylfaenol". - **Rheolwr Cymorth yn y Gymuned**


**Roedd rhai pryderon ynghylch ymateb i anghenion Iechyd a gofal newydd yng nghyd-destun hyfforddiant a datblygu proffesiynol:**

> "**Mae angen gweithlu hyblyg** i ymateb i fygythiadau newydd sy'n dod i'r amlwg, ymwrthedd gwrthficrobaidd neu glefyd heintus er enghraifft. Mae'n ansicr sut y gall hyfforddiant a datblygiad proffesiynol yn gallu mynd i'r afael â hyn. Perygl yw bod pobl yn gadael i weithio tu allan I Gymru". - **Gwyddonydd Clinigol**
>
> "**Nad oes cyfle i drefnu cynllun olynol** fel y cwtogwyd nifer y gweithlu a phwysau gwaith i'w weld yn cynyddu ddengwaith. Mae hyn yn gadael **ychydig os nad dim cyfle i ddatblygu staff iau i'r lefel ofynnol**". - **Meddyg Teulu Locwm**

**Dywedodd llawer o'r ymatebwyr eu bod yn ymwybodol iawn o anghenion y boblogaeth sy'n heneiddio, ond mae angen rheoli disgwyliadau a galw claf. I ran helaeth, pwysau gwaith a prinder staff oedd y rhwystrau mwyaf rhag paratoi i fodloni anghenion Iechyd a gofal pobl Cymru:**

> "Rydym yn wasanaeth Iechyd sy'n cael ei reoli **gan yr effaith Cymdeithasol o gleifion yn byw yn hirach**, neb yn gallu gofalu amdanynt o fewn eu cartrefi ac felly'n aros yn yr ysbyty am gyfnodau estynedig. Nid yw hyn o fudd i'r **unigolyn... mae angen mwy o "gydweithio" rhwng lleoliadau gofal sylfaenol ac eilaidd**." - **Nyrs**
>
> "**Nid yw'r system gofal Iechyd yn barod ar gyfer y boblogaeth sy'n heneiddio a'r problemau Iechyd a ddaw gyda hynny.** Nid yw'r gofal tymor hir yn y cartref neu mewn cartref nyrsio yn ddigonol ar gyfer y cynnydd o gleifion sy'n dioddef o Ddementia / Alzheimers / Clefyd Parkinson sy'n dod mewn i'r ysbyty. Mae hyn yn arwain i aros am gyfnod hir yn yr ysbyty, aros am ofal hir dymor sy'n eu rhoi mewn perygl mawr o haint a straen emosiynol i deuluoedd". - **Nyrs**
>
> "[Mae yna] dderbyniad araf iawn i'r anhawster cynyddol i ddarparu lleoliadau gofal priodol i bobl... gyda diffyg gwybodaeth a sgiliau yng ngofal dementia er enghraifft. Diffyg arian / cartrefi gofal / gwelyau seibiant / gwasanaethau arbenigol sy'n cael eu staffio'n realistig. **Mae yna lefel o ddealltwriaeth wael iawn yn gyffredinol am yr hun sy'n gyfystyr â gofal rhagorol.** Gofal sylfaenol yw golchi / gwisgo / bwydo - mae gofal da neu ragorol yn mynd tu hwnt i'r lefel hon". - **Arweinydd Tîm Hyfforddiant Gofal Dementia**


**12.** Er mwyn darparu'r mathau o ofal y gallai pobl eu hangen yn y dyfodol, beth ddylai fod y tri phrif flaenoriaeth i'ch swydd neu proffesiwn?



**13.** I ba raddau ydych chi o'r farn bod cyflog a thelerau cyflogaeth yn cael effaith ar recriwtio a chadw staff o fewn eich swydd / proffesiwn? Eglurwch eich ateb.

*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 665*

- Dim effaith: **1.95% (13)**
- Effaith isel: **11.88% (79)**
- Effaith ganolig: **31.88% (212)**
- Effaith uchel: **54.29% (361)**



## Dyfyniadau Allweddol

**Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn teimlo bod cyflog a thelerau cyflogaeth yn cael effaith uchel ar recriwtio a chadw staff o fewn eu swyddi / proffesiwn:**

"**Mae'r newidiadau mewn rheoliadau cyflogaeth ar isafswm cyflog cenedlaethol a chyfraddau "cysgu i mewn" wedi effeithio ni'n ddifrifol eleni,** gan ychwanegu'n fawr at ein costau, heb unrhyw gynnydd mewn ffioedd i helpu darparwyr i wneud hyn yn iawn. Mae'r graddfeydd cyflog yn isel iawn yn y sector hwn, ac rydyn ni methu rhoi codiadau i gyflog i'r staff sy'n haeddu hyn" - **Rheolwr Cofrestredig, Cartref Gofal Preswyl Preifat ar gyfer Oedolion ag Anableddau Dysgu**

"Gan fy mhrofiad o weithio yn Lloegr, Seland Newydd a Chymru mae'n hawdd gweld bod telerau cyflogaeth dda (yn Seland Newydd) [yn golygu] bod staff yn fwy brwdfrydig, yn haws i gadw ac felly llai o fylchau yn y gwasanaeth a oedd felly'n gwella boddhad swyddi. Mae costau indemniad wedi codi yn uchel ynghyd â thanysgrifiadau proffesiynol, felly mae cyflog yn gostwng blwyddyn ar ôl blwyddyn - **mae llawer o ffrindiau wedi symud tramor neu'n bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol agos iawn - mae llawer o'r rhai eraill wedi gadael y proffesiwn gyfan gwbl**" - **Cofrestrydd Meddyg Teulu**

**I rai, y costau ychwanegol sydd yn cael effaith ar recriwtio a chadw staff. I eraill, gofynion eu rolau:**


"**Mae gofalwyr yn gweithio'n galed i gwrdd â gofynion eu swydd ac yn sicr ddim yn cael ei wobrwyo'n ddigonol** , er eu bod yn parhau i wneud gan nad ydynt am siomi'r bobl, wrth iddynt ddod yn deulu dros amser". - **Gofalwr Cofrestredig, Cartref Gofal Preswyl i'r Henoed**

"Dw I'n ffodus i gael fy nghyflogi gan awdurdodaeth leol ac yn derbyn cyflog a thelerau da. Fodd bynnag, cyn hyn yr wyf wedi gweithio yn y sector breifat gyda thelerau a chyflog gwael. **Mae edrych ar ôl unrhyw berson sy'n agored i niwed yn bwysig iawn, a dylem fod yn edrych i gyflogi a chadw'r bobl orau posib, [gan]** hyfforddi, cadw a gwobrwyo nhw". - **Gweithiwr Gofal, - Oedolion ag Anableddau Dysgu**


**14.** A ydych yn gweithio mewn ardal drefol neu wledig?

*Cyfanswm nifer yr ymatebion*: 656


- Trefol: **33.08% (217)**
- Gwledig: **25.91% (170)**
- Y ddwy ardal: **41.01% (269)**



**15.** Beth yn eich barn chi yw'r prif broblemau o ran recriwtio a chadw staff sy'n wynebu eich swydd / proffesiwn yn eich ardal leol?



**16.** Rydym yn croesawu unrhyw syniadau am y ffactorau sy'n dylanwadu ar recriwtio a chadw gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru. Os oes gennych unrhyw syniadau neu awgrymiadau, defnyddiwch y gofod isod i'w rhannu â ni.




## Demograffeg

**17.** Beth yw eich oedran?

*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 652*

- 16 – 24: **1.38% (9)**
- 25 – 44: **34.05 (222)**
- 45 – 59: **55.98% (365)**
- 60 – 64: **5.83% (38)**
- 65 neu'n hŷn: **1.84% (12)**
- Dewis peidio â dweud: **0.92% (6)**



**18.** Beth yw eich rhywedd?

*Cyfanswm nifer yr ymatebion*: 653

- Gwryw: **23.28% (152)**
- Benyw: **74.27% (485)**
- Dewis peidio â dweud: **2.5% (16)**

